Gogledd Cymru **Gyda'n Gilydd**
North Wales **Together**

*Gwasanaethau ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu*
*Seamless services for people with Learning Disabilities*

# Gogledd Cymru **Gyda'n Gilydd**

## Gwasanaethau Di-dor ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu

## **Bwletin** Gorffennaf 2020

Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council · Conwy Cyngor Bwrdeistref Sirol County Borough Council · Cyngor Sir Ddinbych Denbighshire County Council · Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council · Gwynedd · Wrexham County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam · GIG Cymru NHS Wales Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board · Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal a Llesiant Gogledd Cymru North Wales Social Care and Well-being Services Improvement Collaborative

# Helo a chroeso

## gan Kathryn Whitfield: Rheolwr y Rhaglen

### Helo a chroeso i'n bwletin diweddaraf.

**Roeddem ni'n teimlo ei bod yn bryd i ni roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am yr hyn sydd wedi bod yn digwydd ers ein bwletin diwethaf ym mis Ebrill.**



Gan fod Covid-19 wedi lledaenu ar draws y byd, ac wedi newid ein bywydau arferol, bu'n rhaid i ni newid y prosiect trawsnewid anableddau dysgu yn ogystal. I ddechrau, gan fod nifer o'n tîm ar secondiad o'r gwasanaethau rheng flaen, bu'n rhaid i nifer o'n aelodau tîm newid eu blaenoriaethau a helpu i gynnal gwasanaethau eraill yn ystod y pandemig.

Fe wnes i, Paul Mazurek, Jeni Andrews a Liana Duffy ddychwelyd yn ôl i Sir Ddinbych. Dychwelodd Sian Croston, Helen Dransfield a Steve Brown i'w rolau yn Sir y Fflint. Golyga hyn fod tîm bychan o bobl wedi gweithio i gadw pethau ar y trywydd iawn, sef Bev Futia, Kim Killow, Paul Hosker, Sioned Williams a Mark John-Williams, a mynd i'r afael â blaenoriaethau a chefnogi prosiectau partner a dinasyddion i weithio mewn ffordd newydd.

Ers 1 Gorffennaf, rwyf wedi dychwelyd i arwain y prosiect trawsnewid, ynghyd â Sian Croston, Helen Dransfield, Steve Brown a Paul Mazurek. Yn anffodus, ni fydd Liana Duffy yn gallu dychwelyd i weithio ar y prosiect, a bydd Jeni Andrews yn dychwelyd i helpu â'r prosiect 2 ddiwrnod yr wythnos. Fodd bynnag, gydag aelodau tîm yn gweithio oriau ychwanegol a phawb yn ymdrechu ar y cyd, hyderwn y byddwn yn gallu bwrw ymlaen ag amcanion y prosiect hyd yn oed os yw hynny'n golygu gweithio mewn ffordd wahanol.


Hoffwn ddiolch i bawb am fod mor hyblyg ac am weithio mor galed i helpu gwasanaethau i barhau i gefnogi dinasyddion yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Felly, dyma sydd wedi ein cadw'n brysur dros y cyfnod clo?

# Technoleg

**Rydym wedi manteisio ar dechnoleg i sicrhau ein bod yn gallu bwrw ymlaen gydag unrhyw brosiectau mewn modd digidol ac ar-lein. Drwy gyfuniad o gyllid y Gronfa Gofal Canolraddol ac offer a roddwyd i ni, mae tîm y rhaglen wedi rhannu offer cyfrifiadurol, canllawiau gwybodaeth hawdd eu deall a "chyfaill rhithiol" i gynnig cefnogaeth i ddinasyddion, teuluoedd a gofalwyr i'w galluogi i fynd ar-lein. Mae hyn wedi caniatáu i ddinasyddion ymgysylltu ag amrywiaeth o brosiectau ar-lein a ariannir drwy'r rhaglen hon a thrwy sefydliadau trydydd sector.**

## Cardiau Enfys




Mae Helen Dransfield o'n tîm wedi gwneud gwaith gwych yn dylunio cerdyn yr enfys. Roedd teuluoedd a gofalwyr sy'n cefnogi unigolion ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth yn gallu dangos y cerdyn hwn i'r heddlu os oedd arnynt angen teithio y tu hwnt i'w hardal a/neu wneud ymarfer corff fwy nag unwaith y diwrnod er mwyn cynnal eu lles. Fe wnaeth Heddlu Gogledd Cymru dderbyn y defnydd o'r cardiau hyn yn ffurfiol ar draws Gogledd Cymru, ac mae dros 1300 o ddinasyddion wedi derbyn y cardiau hyn.

## Grŵp Facebook Trawsnewid Anableddau Dysgu

Mae'r grŵp hwn yn tyfu bob dydd! Diolch i Bev Futia o'r tîm sydd wedi cynnal nifer o gyfweliadau byw ar Facebook dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Cynhaliodd Bev gyfres o gyfweliadau gan gynnwys sampl o bartneriaid prosiect a ariennir, Grŵp Cyfranogi Gogledd Cymru, yn ogystal â chyfweliad â Neil Ayling, cyflwynydd y rhaglen. Mae Michelle Williams wedi gwneud gwaith gwych yn cyfweld Neil. Dilynwch y ddolen isod am fanylion y grŵp Facebook!

**https://www.facebook.com/groups/424132108223654**

Mae wedi bod yn gyfle gwych i bawb glywed gan yr unigolion sydd ynghlwm â'r rhaglen, a bydd y tîm yn parhau â hyn yn y dyfodol! Os oes gennych chi ddiddordeb mewn ymddangos ar ein grŵp Facebook, anfonwch neges atom ar **learning.disability.transformation@flintshire.gov.uk.**

## Partneriaid Prosiect a Ariannir

**Fel y gwyddoch o'n bwletin diwethaf, mae gennym nifer o bartneriaid prosiect sy'n gweithio gyda ni i ddarparu rhai o amcanion y prosiect. Mae nifer o'r prosiectau hyn wedi gallu addasu a datblygu eu gwaith mewn ffordd wahanol. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi wrth i'r amser fynd yn ei flaen. Am rŵan, dyma rai prosiectau yr ydym wedi eu haddasu i sicrhau ein bod yn gallu eu cynnal yn ystod y cyfnod clo.**

## Côr Makaton - Cyswllt Conwy



Ar 30 Mawrth, fe wnaeth y Côr Makaton a gynhelir gan Cyswllt Conwy drosglwyddo i sesiynau wythnosol ar-lein. Mae aelodau, rheini, gofalwyr a staff cymorth wedi bod yn mynychu'r sesiynau'n rheolaidd. Mae'r niferoedd wedi aros yn gyson gyda 6 o aelodau, rhieni a gofalwyr newydd, sydd wedi arwain at 23-26 o bobl yn mynychu bob wythnos.

Beth sydd wedi gweithio?

- Rhoi cyfle i bobl gyfarfod a pharhau i gymdeithasu a datblygu perthynas fel grŵp a mwynhau'r buddion o ganu a chyd-ganu gyda'i gilydd.
- Mae aelodau wedi addasu'n dda i'r newidiadau.
- Dysgu am hunan-ynysu a datblygu sgiliau newydd. Mae nifer o gyfranogwyr wedi parhau i ddysgu arwyddion a chaneuon newydd yn ystod y cyfnod hwn.
- Mae pobl hefyd yn cysylltu drwy dudalen Facebook a grŵp WhatsApp y côr.
- Mae aelodau newydd o Cyswllt Conwy wedi ymuno ers y cyfnod clo. Nid Makaton yw prif ddull cyfathrebu y bobl hyn, ond maent yn awyddus i gyfathrebu ag aelodau eraill. Maent hefyd yn mwynhau'r elfen gymdeithasol o'r grŵp.

Da iawn Cyswllt Conwy a holl aelodau'r côr! Mae'r ffordd yr ydych wedi addasu i fod yn rhan o'r côr ar-lein yn wych. I wylio rhai o'r fideos a chyfweliad am y côr, ymwelwch â thudalen Facebook Cyswllt Conwy drwy ddilyn y dolenni canlynol:

**https://www.facebook.com/CC4LD/videos/2628908574018934/**

**https://www.facebook.com/CC4LD/videos/1659506880872659/**

## ITeams project via Flintshire Do-It

**Mae Flintshire DO-IT, yn yr un modd â phawb arall, wedi wynebu'r her enfawr o geisio parhau â'u Prosiect Tîm TG er gwaethaf y Pandemig. Ar ôl derbyn cyflwyniad i gynadledda fideo dros Zoom yn ddiweddar, fe wnaethant benderfynu rhoi cynnig arni a gweld a fyddai modd iddynt ddarparu'r rhaglen o weithdai a'u gwasanaeth mentora ar-lein.**




Ers 7 Ebrill, maent wedi bod yn darparu sesiynau fideo rhyngweithiol un-awr, sy'n arwain pobl drwy'r broses o ddatblygu 'Cylch Cefnogaeth'. Y mantais o fideogynadledda yw y gallwch wahodd gwestai o bob man, felly roeddent yn lwcus iawn o Marie James, Mam Trystan, sydd wedi gweithio gyda nhw i ddatblygu Cylch llwyddiannus, i'w helpu drwy drosglwyddiad Trystan yn Sir Gaerfyrddin. Fe weithiodd yn wych!

Maent bellach wedi cynnal 9 o weithdai Zoom yn ogystal â chynnig gwasanaeth mentora Zoom, ac maent yn falch o ddweud fod 5 Tîm TG wedi ffurfio Cylch ar-lein, ac mae 4 arall ar y gweill.

Mae'n wych gweld y prosiect hwn yn datblygu'n rhithiol ac edrychwn ymlaen at glywed am waith gwych y prosiect hwn i'r dyfodol.

## Ffilm Gwerthoedd ac Ymddygiad – Tape a Hijinx

Nod y prosiect hwn yw cyd-gynhyrchu fideo i godi ymwybyddiaeth am faterion pwysig mewn perthynas â gwerthoedd ac ymddygiadau. Mae'n anelu at fod yn adnodd gwerthfawr i godi ymwybyddiaeth a rhannu gwybodaeth am y ffordd orau i gefnogi pobl ag anableddau dysgu a sefydlu gwerthoedd ac ymddygiadau allweddol o fewn y gweithlu.

Yn sgil y sefyllfa bresennol, mae'r tîm TAPE wedi penderfynu gweithredu'r prosiect ar-lein! Rhoddwyd y sesiynau ar waith ym mis Mai gan ddefnyddio Zoom, a rhoddwyd cyfle i gyfranogwyr ddod at ei gilydd yn rhithiol, cyfarfod pobl newydd, dysgu sgiliau newydd a defnyddio'r cyfryngau creadigol. Mae hyn wedi galluogi dinasyddion i gadw mewn cysylltiad er gwaethaf y mesurau cadw pellter cymdeithasol.

Hyd yma, mae'r prosiect yn dod yn ei flaen yn dda ac rydym yn edrych ymlaen at weld y cynnyrch gorffenedig!

Sampl bychan o brosiectau yw'r rhain ac edrychwn ymlaen at ganolbwyntio ar rai eraill yn ein bwletin prosiectau nesaf.

## ‘Get Checked Out’ Gogledd Cymru

Croeso i’n gwefan newydd sy’n canolbwyntio ar wiriadau iechyd. Rydym wedi llwyddo i fwrw ymlaen â’r gwaith hwn yn ystod y cyfnod clo, gan alluogi platfform ar gyfer gwybodaeth yn ymwneud ag iechyd, gan gynnwys adran ar Covid-19.




Penderfynom lansio’r wefan hon yn gynt na’r disgwyl gan ein bod yn teimlo y byddai’r adnodd yn ddefnyddiol yn ystod y cyfnod anodd hwn. O ganlyniad, dim ond y wefan Saesneg sydd ar gael ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae’r safle Gymraeg wrthi’n cael ei datblygu a bydd ar gael yn fuan.

Ymwelwch â’r wefan ar **https://getcheckedoutnorthwales.org/**
https://gofalwchameichiechydgogleddcymru.org/
Dyma’r fersiwn gyntaf o’r wefan, ac rydym yn awyddus i glywed eich adborth a sefydlu grwpiau cyd-gynhyrchu i adolygu dogfennau a gwneud gwelliannau i’r dyfodol.

Gobeithiwn y bydd y wefan hon yn safle gwych sy’n caniatáu i unigolion, rhieni a gofalwyr, yn ogystal â gweithwyr iechyd proffesiynol gael gwybodaeth ac adnoddau i hwyluso gwiriadau iechyd a sgrinio i bawb.

Mae gennym lawer o wybodaeth am ein rhaglen waith ar brif wefan y prosiect yn ogystal. Ymwelwch â **https://northwalestogether.org/**

## Gwerthuso Prosiectau

Rydym yn parhau i weithio gyda swyddogion gwerthuso prosiectau, ond bu’n rhaid i ni newid ychydig ar y ffocws o ganlyniad i’r sefyllfa mewn perthynas â Covid-19. Rydym ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar werthuso’r effaith y mae gwaith y tîm yn ystod y cyfnod clo wedi’i gael. Rydym bellach yn ystyried beth sydd ei angen i gynnal canlyniadau o fewn Strategaeth Anabledd Dysgu Gogledd Cymru i’r dyfodol. Rydym felly’n gweithio gyda swyddogion gwerthuso ar gynlluniau cynaliadwyedd i’r dyfodol.